

## **ATODIAD 1**

### **Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2018-19**

#### **1. Crynodeb Gweithredol**

- 1.1 Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016, ac mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â 171 o'r Safonau. Mae'r Safonau'n sicrhau bod y Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd ac yn parchu hawliau siaradwyr Cymraeg.
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi croesawu cyflwyno'r Safonau a'r cyfleoedd i gynyddu darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r hawliau y maent yn eu cynnig i'r cyhoedd a'n gweithwyr. Rydym yn falch o'n treftadaeth a'n diwylliant Cymreig, ac o'r Gymraeg. Mae'r Cyngor o'r farn fod parchu a bodloni anghenion a dewisiadau ieithyddol ei gwsmeriaid yn hollbwysig er mwyn darparu gofal cwsmeriaid da ac effeithiol. Rydym yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau, lle mae'r gallu i gyrchu gwasanaethau yn iaith gyntaf yr unigolyn yn arbennig o bwysig.
- 1.3 Rydym yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r Safonau ond yn cydnabod bod angen inni fonitro rhai meysydd yn agos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Gymraeg a Chynllun y Cyngor ac yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio drwy ein holl flaenoriaethau a'n polisïau. Yn ystod 2019/20 bydd mwy o waith yn cael ei gyflawni ar yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb er mwyn rhoi ystyriaeth briodol a digonol i elfen yr aseidiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi un o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" sy'n cefnogi ein nod i gyflenwi gwasanaethau yn gydradd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

#### **2. Cyflwyniad**

- 2.1 Mae'r Gymraeg yn rhan o bortffolio'r Aelod Arweiniol Cymunedau, Partneriaethau, Gwarchod y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol, a'r uwch swyddog cyfrifol yw'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, sef hyrwyddwr Cymraeg y Cyngor o fewn yr Uwch Dîm Arwain. Bydd materion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn cael eu hatgyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol neu i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu. Mae gan y Cyngor hefyd grŵp Aelodau a Swyddogion ar gyfer y Gymraeg sy'n cyfarfod bob chwarter. Byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar gyfer unrhyw newidiadau sylfaenol.
- 2.2 Yr Adran Llywodraethu a Chwsmeriaid sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros weithredu'r Safonau. Mae'r Arweinydd Digidol, Brand a Chyfathrebu yn cadw'r trosolwg strategol a Chydlynedd Iaith Gymraeg yn gyfrifol o ddydd i ddydd am gydymffurfio â'r safonau, am hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, ac am gyrraedd y targedau a chyflawni'r camau yn strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd y Cyngor ar gyfer y Gymraeg.
- 2.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin, fel y nodir yn Safonau 158, 164 a 170 er mwyn adrodd ar gynnydd yn erbyn y gofynion i gydymffurfio â'r Safonau yn y meysydd canlynol - Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredol a Llunio Polisïau. Ceri restr law o'r Safonau y maen'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy i'w gweld yma

[https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/welsh\\_language\\_standards/compliance\\_notice\\_wcbc\\_w.pdf](https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/welsh_language_standards/compliance_notice_wcbc_w.pdf).

Byddwn hefyd yn adrodd yn flynyddol wrth Fwrdd Gweithredol y Cyngor ar ein perfformiad yn gysylltiedig â'r Safonau.

- 2.4 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

### **3. Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

- 3.1 Er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth byddwn yn darparu gwybodaeth reolaidd i'r rheolwyr a'r staff am agweddau amrywiol ar y Safonau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gofynnir i'r holl weithwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau, ac maent wedi cael gwybod am ganlyniadau peidio cydymffurfio ers cyflwyno'r safonau yn 2016. Yn 2018/19, cynhaliwyd ymchwiliad manwl yn y Cyngor i'r diffyg cydymffurfiaeth o ran arwyddion, a gellir gweld gwybodaeth bellach yn Adran 6.3 o'r adrannau cwynion ac ymchwiliadau.
- 3.2 Mae posteri 'Iaith Gwaith' wedi'u harddangos yn yr holl dderbynfeydd, a wasanaethir gan staff dwyieithog. Mae gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo'r cortynnau/bathodynau 'Iaith Gwaith'. Mae posteri hefyd wedi'u creu sy'n rhestru cyfrifoldebau gweithwyr, ac wedi'u lleoli wrth orsafoedd llungopiö ar draws holl swyddfeydd y Cyngor.
- 3.3 Arfer gwaith y Cyngor yn gysylltiedig â'r wefan, porthol fy nghyfrif, yr e-siop, cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau hunanwasanaeth yw ymdrechu i sicrhau bod popeth yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae sawl ymchwiliad wedi cael ei gynnal i achosion o ddiffyg cydymffurfio ar wefan ac ar byrth y Cyngor, ac mae gwaith yn cael ei gyflawni i brofi'r pyrth er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, lle bo technoleg y feddalwedd yn caniatáu hynny. Rydym yn creu gwefan newydd sbon sydd yn cael ei phrofi'n fewnol ar hyn o bryd a chaiff ei lansio i'r cyhoedd fel safle beta / prawf ym mis Awst 2019. Lansiodd y Cyngor wefan newydd sbon ym mis Mai 2019, a chyflawnwyd llawer o waith i sicrhau cydraddoldeb ym mhob rhan o'r wefan ac ar unrhyw byrth. Mae polisi cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- 3.4 Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau addysg a gynhelir gan y Cyngor beth yw eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg), er mwyn asesu a oes angen darparu'r cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.5 Cafodd Gweithdrefn Cwynion y Gymraeg ei diweddarau a'i chryfhau yn ystod y flwyddyn fel y gallai'r rhai a ddymunai gwyno wrth y Cyngor am unrhyw agwedd ar y Gymraeg wneud hynny'n rhwydd. Ceir mwy o wybodaeth am gwynion yn adran 6.
- 3.6 Mae grŵp cydgysylltu swyddogion adrannol y Gymraeg yn gweithredu o fewn y Cyngor. Nod y grŵp yw hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Cyngor, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan weithwyr, rhannu arfer da mewn meysydd gwasanaeth a chyfrannu at fentrau sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

#### **4. Cydymffurfio â Safonau Lluoio Polisi**

- 4.1 Fel y nodwyd yn 1.3, bydd y pecyn cymorth ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei adolygu a'i gryfhau (yn ogystal â nodweddion gwarchoddedig eraill). Ar hyn o bryd, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adran benodol am y Gymraeg sy'n sicrhau ystyriaeth briodol o'r holl faterion yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Penderfynwyd cryfhau eto y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel bod pob polisi sy'n bodoli eisoes, a phob polisi newydd, yn rhoi sylw dyladwy i unrhyw oblygiadau negyddol posibl o ran y Gymraeg a methiant posibl i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith.
- 4.2 Mae'r Cyngor yn cynnal y wefan ymgynghori 'Eich Llais Wrecsam'. Gwefan cwbl ddwyieithog a ddatblygwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam yw hon. Ei phwrpas yw casglu cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu ynghyd mewn un man. Mae'r wefan wedi cael ei defnyddio i gasglu gwybodaeth am faterion yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio grwpiau ffocws efo siaradwyr Cymraeg yn yr ardal i gasglu eu barn am faterion lleol o safbwynt y Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal arolwg blynyddol sy'n gofyn cwestiynau am farn preswylwyr ynghylch y Gymraeg wrth iddynt gysylltu â'r Cyngor, a hefyd ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg wrth gymdeithasu ac ar-lein. Am y 3 blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gofyn yr un cwestiynau er mwyn olrhain a monitro a yw'r Safonau yn newid ymddygiad defnyddwyr a'u defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, penderfynwyd y dylem ofyn cwestiynau gwahanol y flwyddyn nesaf, a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn llenwi'r ffurflen yn 2018/19 a fyddai ganddynt ddi-ddordeb mewn cymryd rhan mewn grŵp ffocws neu fforwm i helpu'r Cyngor lunio cwestiynau a oedd yn seiliedig ar eu profiadau neilltuol hwy ar gyfer arolwg 2019/20.

#### **5. Cydymffurfio â'r Safon Weithredol**

- 5.1 Mae gweithwyr a rheolwyr wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol ac am hawliau gweithwyr.
- 5.2 Mae Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor wedi cael ei diweddarau a'i chryfhau yn sgil cyflwyno'r Safonau, ac erbyn hyn yn cynnwys hawliau gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 5.3 Mae'r Cyngor wedi creu safle penodol ar ei fewnwyd sy'n cynnwys canllawiau bras ar y Safonau, yr hyn a ddisgwyl gan weithwyr o ran gweithredu'r safonau, Cwestiynau Cyffredin, hawliau siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Y mae hefyd yn cynnwys 'Polisi Cymraeg yn y Gweithle' yr ychwanegir ato fel bo'r angen.
- 5.4 Mae'r Cyngor wedi diweddarau ei fodiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a oedd wedi'i gynnwys fel modiwl hyfforddiant hanfodol i'w gwblhau gan bob aelod o staff yn rhan o'u PRD blynyddol ar gyfer 2018-19. Mae hyfforddiant lefel sylfaenol, ganolraddol ac uwch ar gael i weithwyr ac i'r Aelodau. Mae gweithdy blynyddol ar y Gymraeg hefyd yn cael ei gynnal i'r Aelodau er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gweithredu, ac am fentrau newydd, a bydd hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ac i'r Aelodau yn ystod 2019/20.

- 5.5 Mae meddalwedd Cysgliad [Gwirydd sillafu a gramadeg y Gymraeg] wedi cael ei darparu i'r holl siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn y Cyngor.
- 5.6 Mae adnoddau ar gael ar y fewnrwyd i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddefnyddiol.
- 5.7 Rhoddwyd cyfarwyddiadau ynghylch sut i sefydlu 'laith Gwaith' ar lofnodion e-bost, ac mae'r holl lofnodion awtomatig bellach yn ddwyieithog. Mae holl deitlau'r staff yn ddwyieithog, yn ogystal â'r holl negeseuon 'allan o'r swyddfa.
- 5.8 Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu dull cadarn o bennu a ddylid hysbysebu swyddi fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mae'r swyddi a hysbysebir fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol fel arfer mewn ardaloedd sy'n wynebu'r cyhoedd, fel y Ganolfan Gyswllt. Mae pob swydd arall yn nodi Cymraeg yn hanfodol. Yn ystod 2018-19 hysbysebwyd 267 o swyddi (ac eithrio ysgolion) ac roedd 264 yn nodi fod y Gymraeg yn ddymunol a 3 swydd yn nodi fod y Gymraeg yn hanfodol, sef 1.1% o'r holl swyddi a hysbysebwyd. Mae'r ffurflen rheoli swyddi gwag yn cael ei diwygio ar hyn o bryd i gryfhau'r broses o asesu gofynion swyddi newydd a swyddi gwag o ran y Gymraeg
- 5.9 Bydd ffurflenni cais ar gyfer swyddi yn gofyn i ymgeiswyr nodi a ydynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, p'un a yw'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd ai peidio.
- 5.10 Gellir gweld sgiliau iaith gweithwyr yn yr adran Monitro Perfformiad a geir yn Atodiad 3 - gweler isod.
- 6. Cwynion**
- 6.1 Yn ystod 2018-19, derbyniodd y Cyngor gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ac mae'r rhain wedi cael eu cofnodi fel a ganlyn, ac ymchwiliad wedi'i gynnal iddynt.

<b>Cwynion ynghylch y Gymraeg 2018/19</b>	
<b>Cwyn</b>	<b>Gweithredu / Unioni</b>
Y Gymraeg yn anghywir ar arwydd ffordd a oedd newydd ei godi.	Comisiynu a chodi arwydd newydd, cywir.
Llinell ar goll o llythyr Cymraeg a ofynnai i bobl fynegi diddordeb mewn bod yn Llywodraethwr yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.	Cywiro'r llythyr a'i ailanfon, ac ailanfon y llythyr hefyd at randdeiliaid a phartneriaid y Gymraeg.
Gwall yn adran dad-danysgrifio Gov Delivery wrth ei defnyddio yn Gymraeg, ond wrth ei phrofi gwelwyd bod y gwall hefyd yn digwydd yn yr ochr Saesneg.	Wedi cywiro.
Arwydd mewn parc gwledig yn cynnwys sawl camgymeriad.	Gosod arwydd newydd wedi'i gywiro. Nodwyd bod yr un arwydd wedi'i godi mewn parciau gwledig eraill, a chywirwyd pob un ohonynt.
Cwyn ynghylch porthol ymgynghori'r CDLI.	Ymchwilwyd y gwyn gan y Comisiynydd a derbyniwyd hysbysiad penderfyniad arfaethedig.

Camgymeriadau ar dudalen digwyddiad Be sy 'mlaen ar wefan y Cyngor.	Cywirwyd
Cwyn ynglyn â galwad ffôn i adran Strydoedd o Fri	Wedi ymateb a rhoi gwybod y bydd y broses yn cael ei hadolygu.
Cwyn ynghylch geiriad y CDLI o ran enwau dwyieithog ar ddatblygiadau newydd.	Wedi cysylltu â'r adran polisi cynllunio a diwygio'r geiriad.

6.2 Yn ogystal â hyn, bu'r Cyngor yn destun ymchwiliadau a gychwynnwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i gwynion a dderbyniodd yn uniongyrchol ati hi ynghylch honiadau nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn o dan adran 71 o Ddeddf Mesur y Gymraeg [2011], a rhoddir crynodeb ohonynt isod. Dylid nodi bod yr adroddiad hwn yn manylu ar gynnydd a statws ymchwiliadau rhwng 1.4.17 a 31.3.18. Bydd unrhyw waith pellach i fwrw ymlaen ag ymchwiliadau sydd ar y gweill yn cael eu hadrodd fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20.

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
<b>Ymchwiliadau Investigations ar y gweill o gyfnod adrodd 2017/18</b>						
17/08/17	CSG261 CSG262 CSG268 CSG269	Ar bedwar achlysur yn ystod mis Awst 2017, cwyn bod gwefan y Cyngor wedi bod yn anghyson o ran y defnydd o'r Gymraeg.	09/10/18	Cwyn ddilys	Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r camau gweithredu ac fe wneir pob ymdrech i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	
07/09/17	CSG253	Cwyn bod y Cyngor wedi defnyddio fersiwn Saesneg o gyfeiriad y Cwsmer ar e-bost.	23/09/18	Cwyn ddilys	Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r camau gweithredu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad terfynol.	
03/10/17	CSG237	Amheuaeth o fethu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth godi arwyddion ar ôl dyddiad cosb - roedd nifer o arwyddion wedi'u cynnwys yn yr ymchwiliad hwn, rhai dros dro a pharhaol a adroddwyd wrth y Comisiynydd fel arwyddion nad oeddent yn cydymffurfio â'r Safonau.	13/07/18	Cwyn ddilys	Roedd rhaid i'r Cyngor gydymffurfio a 9 cam gorfodi. Gweler 6.3 am fwy o fanylion.	

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
23/10/17	CSG251	Cwyn ynghylch peidio gallu cofrestru genedigaeth plentyn yn Gymraeg wrth ddod i'r apwyntiad.	13/09/2018	Cwyn ddilys	Dylai y rhai sy'n cofrestru genedigaeth gael gofyn am eu dewis iaith. Mae gwybodaeth hefyd ar y wefan. Mae'n cyflenwr meddalwedd yn dal i ddatblygu'r sgrïpt derfynol.	
26/10/17	CSG281	Cwyn ynghylch lleoliad y Gymraeg ar arwydd dros dro.				Yn yr arfaeth
10/01/18	CSG280	Cwyn bod sic a gohebiaeth wedi'u derbyn yn Saesneg yn unig.	12/09/18	Cwyn ddilys	Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r camau gweithredu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad terfynol. Gyrrwyd y cynllun gweithredu i'r Comisiynydd ar 02/11/18.	Mae pob sic nawr yn ddwyieithog

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
01/02/18	CSG306	Cwyn nad oedd rhai ymgynghoriadau ar dudalennau Saesneg gwefan y Cyngor ar gael ar y tudalennau Cymraeg.	18/06/18	Cwyn ddilys	Gweithredodd y Cyngor ar benderfyniad y Comisiynydd a diweddarau ei brosesau.	
03/02/18	CSG288	Gwallau a diffyg Cymraeg ar arwydd yn Rhosddu.		Wedi'i therfynu	Hysbysodd y Comisiynydd y Cyngor na fyddai'n cynnal ymchwiliad i'r arwydd neilltuol hwn gan ei bod eisoes wedi comisiynu ymchwiliad i brosesau a gweithdrefnau cyffredinol y Cyngor er mwyn sicrhau cywirdeb a chydymffurfiaeth ar ei holl arwyddion, sef CSG237.	



Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
23/02/18	CSG317	Cwyn ynghylch arwyddion ffordd dros dro.		Dim gweithredu pellach	Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach am ein bod yn gweithio tuag at y camau gorfodi yn CSG237.	
<b>Ymchwiliadau Newydd a agorwyd yn ystod 2018/19</b>						
19/04/18	CSG329 CSG330 CSG331 CSG332 CSG333 CSG336 CSG337 CSG338	Gwallau ar hysbysiadau biliau Treth Cyngor 2017/18.  Ymdriniwyd â phob un fel rhan o'r un gwyn.	11/03/19	Cwyn ddilys	Camau gorfodi wedi'u derbyn a'u gweithredu o fewn yr amserlen.	Mae pob gohebiaeth hysbysiadau Treth Cyngor nawr yn ddwyieithog
25/04/18	CSG301	Arwydd uniaith Saesneg ym maes parcio Marchnad y Bobl.	19/09/18	Dim gweithredu pellach	Dim gweithredu pellach gan fod y Cyngor yn gweithio tuag at y camau gorfodi yn CSG237.	
25/04/18	CSG302	Arwyddion uniaith Saesneg ar yr A539.	16/07/18	Wedi'i therfynu		Nid oedd y Cyngor yn gyfrifol am y gwyn

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
30/04/18	CSG320	Gwefan y porth ceisiadau cynllunio.	20/09/18	Cwyn ddilys	Cyflwynwyd cynllun gweithredu i'r Comisiynydd yn ôl y gofyn ar 03/12/18. Bydd cyfleuster chwilio am geisiadau cynllunio newydd i'w gaffael a'i weithredu i gyd-fynd â lansiad y wefan newydd yn 2019.	
21/05/18	CSG364	Cwyn ynghylch gwefan Tŷ Pawb.		Cwyn ddilys		Yn yr arfaeth
04/07/18	CSG362	Cwyn ynghylch enw stryd Saesneg yn unig ar y Map a arddangoswyd ar arwydd PSPO ym Mharc Rhosddu.	12/11/18	Cwyn ddilys	Tynnwyd yr arwydd o'r safle ar 15/11/19.	
14/08/18	CSG401	Cwyn ynghylch gwall ar arwydd ar gyfer parc gwledig Tŷ Mawr a rhybudd Saesneg yn unig ar y peiriant talu ac arddangos.	01/05/19	Wedi'i therfynu	Wedi'i derfynu gan y Comisiynydd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
15/08/18	CSG406	Cwyn ynghylch plât enw stryd nad oedd yn cydymffurfio yng Ngresfordd.	05/04/19	Dim gweithredu pellach	Ar y sail bod y Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad yn ddiweddar i arwyddion cydymffurfiaeth y Cyngor yn CSG237.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20
15/08/18	CSG396	Cwyn ynghylch llinell ffôn canolfan gyswilt treth y Cyngor.				Yn yr arfaeth
28/08/18	CSG408	Cwyn fod cofnod presenoldeb cynghorydd ddim yn gyflawn ar modern.gov.	11/10/18	Cwyn ddilys	Ni chynhaliwyd ymchwiliad gan fod y Comisiynydd wedi nodi ei bod eisoes wedi agor cwyn i'r un mater - CSG269 a oedd yn dal ar agor.	
10/09/18	CSG376	Tudalen Facebook O dan y Bwâu.	22/03/19	Wedi'i therfynu		
20/09/18	CSG373	Cwyn ynghylch rhybudd ar gyfer ymgynghoriad y CDLI.	22/03/19	Cwyn ddilys	Comisiynydd yn gosod camau gorfodi ar y Cyngor. Wedi eu gweithredu o fewn yr amserlen	

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
10/10/18	CSG402	Cwyn ynghylch gwefan ymgynghori 'Eich Llais'.	05/06/19	Cwyn ddilys	Comisiynydd yn gosod camau gorfodi ar y Cyngor.	Ar y gweill fel y mae ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20
12/10/18	CSG430	Cwyn ynghylch porthol ceisiadau Derbyniadau Ysgolion.	13/05/19	Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20
17/10/18	CSG407	Cwyn ynghylch gwefan ymgynghori cynllunio y CDLI.	20/05/19	Cwyn ddilys	Comisiynydd yn gosod camau gorfodi ar y Cyngor.	Ar y gweill fel y mae ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.

<b>Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad</b>	<b>Rhif Cyfeirnod</b>	<b>Manylion y Gwyn</b>	<b>Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol</b>	<b>Canlyniad</b>	<b>Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn</b>	<b>Statws/Sylwadau</b>
02/11/18	CSG446	Cwyn ynghylch gwefan y Cyngor o ran bod cynllun 30 awr o ofal plant y Llywodraeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.	23/05/19	Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
05/11/18	CSG469	Cwyn ynghylch digwyddiad a oedd wedi'i bostio ar ganllawiau Be sy' mlaen CBSW.	17/05/19	Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
07/11/18	CSG448	Cwyn ynghylch cyfrifon Twitter CBSW a Tŷ Pawb.	10/05/19	Dim Ymchwiliad	Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio	
13/11/18	CSG452	Cwyn ynghylch gwefan ymgynghori 'Eich Llais'.	20/12/18	Dim ymchwiliad	Ni ddarganfuwyd methiant.	
15/11/18	CSG453	Cwyn ynghylch poster PDF am 30 diwrnod o ddarpariaeth gofal plant ar wefan CBSW.	29/04/19	Dim Ymchwiliad		



Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
21/11/18	CSG456	Cwyn ynglŷn â dogfen cyfansoddiad CBSW.	13/05/19	Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
26/11/18	CSG463	Cwyn ynghylch cyfrif Twitter 'Wreccsam Egnïol'	14/05/19	Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
26/11/18	CSG458	Cwyn bod Dolen i wefan 'Cymraeg' CBSW yn mynd â defnyddwyr i fersiwn Saesneg y porth ceisiadau derbyn i ysgolion.		Cwyn ddilys	Tystiolaeth bellach wedi ei yrru ar 07/06/19.	Yn yr arfaeth
30/11/18	CSG466	Cwyn ynghylch mewngofnodi fel gwestai i ddarpariaeth ddi-wifr CBSW.		Wedi'i therfynu	Er iddo ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20

Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
21/12/18	CSG478	Cwyn ynghylch galwad ffôn i'r Ganolfan Gyswllt.		Yn yr arfaeth	Tystiolaeth wedi'i hanfon at y Comisiynydd ar 07/5/2019.	Yn yr arfaeth
04/01/18	CSG480	Cwyn ynghylch enw datblygiad ym Mhlas Madog.	27/03/19	Dim Ymchwiliad	Ni ddarganfuwyd methiant.	
04/02/19	CSG497	Cwyn ynghylch ffurflen ar-lein ar gyfer derbyniadau ysgolion.	24/05/19	Wedi ei thynnu yn ôl	Er iddi gael ei thynnu'n ôl, mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
04/02/19	CSG498	Cwyn ynghylch porth cynllunio CBSW.	27/03/19	Dim Ymchwiliad	Roedd hyn oherwydd bod y Comisiynydd wedi ymchwilio i gŵyn debyg ac roedd y cyngor yn gweithredu ar y camau gorfodi hynny.	



Dyddiad Agorwyd yr Ymchwiliad	Rhif Cyfeirnod	Manylion y Gwyn	Received Dyddiad Cau/ cylch gorchwyl terfynol	Canlyniad	Camau a gymerwyd i ddatrys y gwyn	Statws/Sylwadau
04/02/19	CSG503	Cwyn ynghylch cyfrif Facebook CBSW 'Gwybodaeth Ymwelwyr Wrecsam'.	17/05/19	Dim Ymchwiliad	Er nad oedd ymchwiliad mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd bod camau wedi'u cymryd.	Bydd manylion y canlyniad yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2019/20.
25/03/19	CSG522	Cwyn am arwyddion ffordd dros dro.	16/04/19	Dim Ymchwiliad	Nid oedd y Cyngor yn gyfrifol am y gŵyn.	

### 6.3 Arwyddion

Fel y nodwyd yn CSG237, bu'r Cyngor yn destun ymchwiliad manwl ynghylch ei ddiffyg cydymffurfiaeth o ran arwyddion. Canlyniad yr ymchwiliad oedd bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â 9 o gamau gorfodi a derbyniwyd hwn ar 20 Mehefin 2018. Roedd gofyn i'r Cyngor gyflawni un o'r camau gorfodi Mae'r Cyngor wedi cymryd y camau priodol i gydymffurfio â'r camau gorfodi o fewn 20 diwrnod, un arall o fewn 28 diwrnod, un o fewn 3 mis a'r 6 arall o fewn 6 mis. Ymatebodd y Cyngor i roi gwybod y byddai'n gweithredu'r camau gorfodi o few y terfynau amser gan gynnwys cyflwyno'r adroddiad gerbron pwyllgor craffu er mwyn i'r Aelodau fod yn llwyr ymwybodol o fethiant y Cyngor yn hyn o beth, ac er mwyn iddynt fod yn fodlon bod camau'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw wallau yn y dyfodol. Fe wnaed hyn ar 28 Tachwedd 2018 pan aeth gerbron Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol. Mae sicrhau cydymffurfiaeth o ran ein harwyddion yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau er mwyn osgoi arddangos arwyddion gwallus eto.

### 7. Monitro Perfformiad

DANGOSYDD PERFFORMIAD	PERFFORMIAD GWIRIONEDDOL
Sicrhau bod y targedau yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn cael eu cyrraedd	Gweler Atodiad 2
Gwasanaeth ar-lein [y wefan] – y % a'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> nifer yr ymweliadau â'r hafan Gymraeg: Ymwelwyr Saesneg 307,912 Ymwelwyr Cymraeg 5,236 hy, 1.7% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> nifer yr ymweliadau â'r hafan Gymraeg: Ymwelwyr Saesneg 291,423 Ymwelwyr Cymraeg 4,726 Sy'n cyfateb â 1.6% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> nifer yr ymweliadau â'r hafan Gymraeg Ymwelwyr Saesneg 394,782 Ymwelwyr Cymraeg 5,976 hy, 1.5% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2018/19</b> nifer yr ymweliadau â'r hafan Gymraeg Ymwelwyr Saesneg 349,426 Ymwelwyr Cymraeg 3,749 hy, 1.1% yn Gymraeg</p>
Y Ganolfan Gyswllt – adroddiad ar % a nifer y galwadau/ymweliadau Cymraeg	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> Derbyniodd Cyswllt Wreccsam 237,447 o alwadau / ymweliadau yn Saesneg; a 215 yn Gymraeg hy, 0.090% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt:</p>

	<p>262,191 o alwadau / ymweliadau yn Saesneg; a 1307 yn Gymraeg hy, 0.5% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 250,952 o alwadau / ymweliadau yn Saesneg A 1,387 yn Gymraeg 0.6%</p> <p><b>Yn ystod 2018/19</b> Derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 235,514 o alwadau / ymweliadau yn Saesneg A 3,024 * yn Gymraeg 1.3%</p> <p>*Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys pob galwad switsfwrdd i'r llinell Gymraeg.</p>
<p>Cyfanswm y trafodion ar y wefan</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> cafwyd: Cymraeg: 7,042 774,956 yn Saesneg hy, 1% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> cafwyd: 890,565 yn Saesneg ac; 8,666% yn Gymraeg hy, 1% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017-18</b> Saesneg: 1,318,807 Cymraeg: 11,613 hy, 0.9% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2018-19</b> Saesneg: 1,222,8040 Cymraeg: 8,912 hy, 0.75% yn Gymraeg</p>
<p>Nifer a % y negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan y Ganolfan Gyswllt yn Gymraeg ac yn Saesneg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 21,399 e-bost yn Saesneg; 166 yn Gymraeg hy, 0.77% yn Gymraeg.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b>, derbyniodd y Ganolfan Gyswllt: 28,691 e-bost yn Saesneg; a 48 yn Gymraeg hy, 0.17% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017-18</b> Negeseuon e-bost Saesneg: 23,502</p>

	<p>Negeseuon e-bost Cymraeg: 32 hy, 0.14% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2018-19</b> Negeseuon e-bost Saesneg: 23,283 Negeseuon e-Bost Cymraeg: 16 Hy, 0.07% yn Gymraeg</p>
<p>Y Ganolfan Gyswllt - Nifer a % y cwsmeriaid sy'n cyflawni eu busnes naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p><b>Yn ystod 2015-16:</b> Cyflawnodd 123,087 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg o gymharu â 5 yn Gymraeg, sydd yn gyfwerth â 0.004%</p> <p><b>Yn ystod 2016-17:</b> Cynhaliodd 122,446 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg; o'i gymharu ag 8 yn Gymraeg hy, 0.0065% yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017-18:</b> Cyflawnodd 142,398 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg o gymharu â 9** yn Gymraeg 0.0063%</p> <p><b>Yn ystod 2018-19:</b> Cyflawnodd 150,156 o gwsmeriaid eu busnes yn Saesneg o gymharu ag 15** yn Gymraeg 0.010%</p> <p>Cytunwyd y byddai cynghorwyr cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt yn gofyn i gwsmeriaid a fyddent yn hoffi cofnodi eu dewis iaith yn 2018/19. Byddant yn gofyn hyn yn ystod pob ymholiad llawn gan gwsmeriaid a gofnodir ar ein CRM. Yn anffodus nid oes modd echdynnu'r ymholiadau llawn gan gwsmeriaid o gyfanswm y galwadau (gan gynnwys galwadau i'r switfwrdd) o'r CRM ar hyn o bryd.</p> <p>**Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid a gofnodwyd yn ein system Rheoli Perthynas â Chleientiaid (CRM) sydd wedi gofyn am gael cynnal eu busnes efo'r Cyngor yn Gymraeg.</p>
<p>Sicrhau bod holl darpariaeth y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ddwyieithog a'i bod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p>	<p><b>Yn ystod 2015-16</b> Facebook: 5,010 yn hoffi yn Saesneg ac 85 yn hoffi yn Gymraeg Twitter: 15,085 o ddilynwyr yn Saesneg a 374 o ddilynwyr yn Gymraeg,</p> <p><b>Yn ystod 2016-17</b> Facebook: 6,699 yn hoffi yn Saesneg a 111 yn hoffi yn Gymraeg Twitter:</p>

	<p>17,155 o ddilynwyr yn Saesneg a 456 o ddilynwyr yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2017-18</b> Facebook: 8,323 yn hoffi yn Saesneg a 412 yn hoffi yn Gymraeg Twitter: 19,000 o ddilynwyr yn Saesneg a 628 o ddilynwyr yn Gymraeg</p> <p><b>Yn ystod 2018-19</b> Facebook: 9,435 yn hoffi yn Saesneg a 480 yn hoffi yn Gymraeg Twitter: 20,051 o ddilynwyr yn Saesneg a 950 o ddilynwyr yn Gymraeg</p>
<p>Nifer a % y swyddi yn y brif dderbynfa, y Ganolfan Gyswllt neu'r siop un stop lle dynodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol, a'r % a wedi'u llenwi gan siaradwr Cymraeg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> ni chafodd yr un swydd ei hysbysebu fel swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn y brif dderbynfa, y ganolfan gyswllt neu'r siop un stop.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> hysbysebwyd pedair swydd fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a llwyddwyd i recriwtio i'r swyddi hynny.</p> <p><b>Yn ystod 2017/18</b> - cafodd 6 swydd eu hysbysebu fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a recriwtiwyd gweithwyr i 6 swydd.</p> <p><b>Yn ystod 2018/19</b> - cafodd 3 swydd eu hysbysebu fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a phenodwyd 3 i'r swyddi hynny.</p> <p>10 yw cyfanswm y staff sy'n siarad Cymraeg yn y brif dderbynfa, y Ganolfan Gyswllt a'r siop un stop, sydd gyfwerth â 29% o'r swyddi.</p>
<p>Unrhyw newidiadau i'r trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol ar gyfer Safonau'r Gymraeg</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi sefydlu Gweithgor Aelodau a Swyddogion ar gyfer y Gymraeg, ac wedi diddymu grŵp blaenorol Rhanddeiliaid y Gymraeg.</p>
<p>Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg hyd at lefel gydymffurfio benodol.</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> astudiodd 55 o aelodau staff y Gymraeg drwy Goleg Cambria sydd gyfwerth ag 1.7% o staff nad ydynt yn addysgu</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> astudiodd 40 o aelodau staff y Gymraeg drwy Goleg Cambria sydd gyfwerth ag 1.2% o'r gweithlu nad yw'n addysgu.</p> <p><b>Yn ystod 2017-18</b> Yn ystod 2017/18 astudiodd 46 o aelodau staff y Gymraeg drwy Goleg Cambria sydd gyfwerth ag 1.6% o'r gweithlu nad yw'n addysgu</p>

	<p><b>Yn ystod 2018/19</b> astudiodd 41 o aelodau staff y Gymraeg drwy Goleg Cambria sydd gyfwerth ag 1.5% o'r gweithlu nad yw'n addysgu</p>
<p>Nifer a % y staff sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg</p>	<p><b>Yn ystod 2015/16</b> cwblhaodd 16 aelod o staff y modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a oedd gyfwerth â 0.5% o'r gweithlu nad yw'n addysgu.</p> <p><b>Yn ystod 2016/17</b> y ffigur oedd 58 Yn ystod 2016/17, sydd gyfwerth â 1.67% Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn diweddarau ei fodiwl Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg. Bydd yn ofynnol i'r holl staff ei gwblhau, a bydd hyn wedi'i nodi yn eu hanghenion hyfforddi drwy eu harfarniad blynyddol. Cafwyd problem dechnegol yn gysylltiedig â gwefan e-ddysgu y Cyngor, ac mae hynny wedi golygu nad oedd gweithwyr yn gallu cwblhau'r modiwl.</p> <p><b>Yn ystod 2017-18</b> Aeth llwyfan e-ddysgu newydd y Cyngor yn fyw ym mis Awst 2017, ac aeth y modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd yn fyw ar 23/01/2018. Cafodd hwn ei gynnwys fel modiwl gorfodol i'w gwblhau gan yr holl staff. Hyd at 31/03/2018 <b>cwblhaodd 171</b> o aelodau staff y modiwl, sydd gyfwerth â 6.1% o'r staff.</p> <p><b>Yn ystod 2018-19</b> Aeth llwyfan e-ddysgu newydd y Cyngor yn fyw ym mis Awst 2017, ac aeth y modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd yn fyw ar 23/01/2018. Cafodd hwn ei gynnwys fel modiwl gorfodol i'w gwblhau gan yr holl staff. Hyd at 31/03/2019 cwblhaodd <b>931</b> o aelodau staff y modiwl, sydd gyfwerth â 33.8% o'r staff.</p>
<p>Nifer a % y staff sydd yn gwasanaethu'r sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg</p> <p>(i) Yn ôl adran</p> <p>(ii) Yn ôl gradd neu swydd</p> <p>(iii) Fesul gweithle</p>	<p>Gweler Atodiad 3 [isod] am fwy o fanylion</p>

## 8. Llwyddiannau a Chamau yn y Dyfodol

- 8.1 Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 5 mlynedd ym mis Mawrth 2017. Gwnaed hynny mewn ymateb uniongyrchol i Safon 145 a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n dangos sut mae'n cynnig hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r iaith yn y Fwrdeistref Sirol. Y mae hefyd yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- 8.2 Bydd y Strategaeth yn cael ei diwygio ar gyfer BI3 yn unol â chanllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac i'w gysoni'n agosach â themâu a gweledigaeth

Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

- 8.3 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno tri digwyddiad diwylliannol i'w galendr ac am y chweched flwyddyn yn olynol comisiynodd y Cyngor Menter Iaith y Fflint a Wrecsam i drefnu a chynnal ei Orymdaith Dydd Gŵyl Ddewi. Ym mis Mai 2017, cyflwynodd y Cyngor fenter newydd o'r enw 'Hwb Gymraeg'. Digwyddiad yng nghanol y dref i ddathlu iaith a diwylliant Cymru dros dri diwrnod yw'r Hwb. Fe'i cynhelir ochr yn ochr â gŵyl gerddoriaeth a chelfyddydau FOCUS Wales sydd eisoes yn hynod lwyddiannus. Unwaith eto, bu'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid yn sector y Gymraeg i gynnal y digwyddiad. Cafodd ei hysbysebu'n eang a'i drafod ar S4C a BBC Radio Cymru. Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiad hefyd ac adborth cadarnhaol iawn.
- 8.4 **Dydd Gŵyl Dewi 2019.**  
Unwaith eto, cafwyd digwyddiad Dydd Gŵyl Ddewi hynod lwyddiannus. Daeth yr orymdaith i ben yn Nhŷ Pawb, ac roedd dros 3,600 yn bresennol sydd yn ardderchog gan ystyried ei fod wedi ei gynnal yn ystod gwyliau'r ysgol - mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer digwyddiad blwyddyn nesaf a gynhelir ar ddydd Sul. Rydym unwaith eto'n edrych ymlaen i gomisiynu Menter Iaith y Fflint a Wrecsam i gynnal y digwyddiad ar ein rhan.
- 8.5 **Dydd Miwsig Cymru - Ysgolion Wrecsam**  
Eleni, cymerodd dros 60 o ysgolion ledled Sir y Fflint a Wrecsam ran yn y dathliad. Roedd y gweithgareddau'n amrywio rhwng gweithdai cerddorol/radio ac ymweliad gan y 'boombox' yn ogystal â chael y don newydd o eiconau pop Cymreig 'Gwilym' yn perfformio yn yr ysgolion - a'r cyfan wedi'i arwain gan lysgenhadon Cymraeg yr ysgolion. Cafwyd ymateb eithriadol o gadarnhaol i'r prosiect, o fewn yr ysgolion eu hunain a hefyd drwy'r gefnogaeth a gafwyd gan rieni. Cynhaliwyd pleidlais ranbarthol ynghylch hoff gân Gymraeg Sir y Fflint a Wrecsam, lle gyrrodd pob artist ar y rhestr fer ei neges bersonol ei hun at y disgyblion. Mae dathliadau Dydd Miwsig Cymru yn atgyfnerthu rôl hollbwysig diwylliant Cymraeg modern yn ein cymunedau dwyieithog.
- 8.6 **Dydd Miwsig Cymru 2019 - Tŷ Pawb 9fed Chwefror**  
Daeth cannoedd o bobl o bob oed i Dŷ Pawb ddydd Sadwrn 09/02 i ddigwyddiad enfawr i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg. Yn ogystal â rhai perfformiadau byw gwych gan rai o'r bandiau gorau yng Nghymru. Roedd y diwrnod hefyd yn cynnwys corau byw, dramâu, dangosiad ffilm, celf a chrefft i'r plant, a rygbi byw ar y sgrin fawr.
- 8.7 **Cymraeg yn y gweithle - Gweithdai**  
Cynhaliwyd peilot o'r digwyddiad hwn yn 2018, ac yn 2019 cafodd ei ehangu i gynnwys tri gweithdy gyda thros 350 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn cymryd rhan. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol ac yn cynnig cyfle i rwydweithio'n gyflym â chyflogwyr, gyda grwpiau bach o ddisgyblion yn treulio sesiynau 10 munud gyda phob un ohonynt. Bydd y disgyblion yn holi cyflogwyr am fanylion fel gwaith o ddydd i ddydd, faint o Gymraeg y maent yn ei ddefnyddio yn ystod y diwrnod gwaith a pha fath o sgiliau a chymwysterau fyddai eu hangen i gyflawni'r swyddi dan sylw. Wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y digwyddiad, cynhelir cystadleuaeth am y cyflwyniad gorau yn seiliedig ar fanteision dysgu Cymraeg ar gyfer y byd gwaith; gwahoddir y

disgyblion llwyddiannus i seremoni wobrwyo ar 10 Mehefin yn Neuadd y Dref, Wrecsam.



## **ATODIAD 2**

### **Fframwaith Mwy Na Geiriau**

#### **Adrodd yn ôl ar gynnydd fframwaith dilynol Mwy na Geiriau.... 2018-19: Y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynwyd y Fframwaith hwn gan Lywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn sgil cyflwyno'r Fframwaith, ceir nifer o fentrau sy'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn eu gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf, gan ddefnyddio sgiliau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Fel darparwydd gofal cymdeithasol yn y gymuned, mae'r Cyngor yn un o'r nifer o bartneriaid sy'n cyflawni'r strategaeth hon, a chan hynny, gofynnir iddo adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

#### **Amcan 1**

##### **Arweinyddiaeth Leol a Chenedlaethol, a Pholisi Cenedlaethol**

**1.3** Adrannau gwasanaethau cymdeithasol i gadw / penodi uwch swyddog fel Hyrwyddwr y Gymraeg a Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i ddiogelu a hyrwyddo swydd Swyddog y Gymraeg o fewn eu sefydliadau.

<b>Tystiolaeth / Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau / Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi'u penodi o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant.</li><li>• Mae gan y Gwasanaethau Oedolion a Phlant siaradwyr Cymraeg dynodedig er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</li></ul>	

**1.6** Sefydliadau GIG Cymru ac ADSS i weithio i godi proffil pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg mewn digwyddiadau cenedlaethol.

<b>Tystiolaeth / Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau / Heriau</b>

#### **Amcan 2**

##### **Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil**

**2.1** Dylai'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol fapio'r ddarpariaeth a'r capasiti cyfredol er mwyn darparu 'Cynnig Gweithredol' ar draws yr holl wasanaethau (gan gynnwys gofal sylfaenol). Lle bo'r capasiti'n isel, dylid creu cynllun gweithredu i gynyddu'r capasiti. Dylid ystyried y capasiti i roi 'Cynnig Gweithredol' i bobl yn y grwpiau â blaenoriaeth a nodwyd yn flaenoriaeth.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• O'r dadansoddiad blaenorol a gynhaliwyd, gwelwyd nad oes gan lawer o dimau ar draws y gwasanaeth y capasiti i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Mae cynlluniau ar waith i fapio darpariaeth a chapasiti ymhellach.</li> <li>• Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg ar waith ar hyn o bryd er mwyn cynyddu'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar recriwtio, datblygu a defnyddio sgiliau cyfredol yn fwy effeithiol.</li> <li>• Mae Strategaeth Sgiliau Cymraeg corfforaethol ar waith sy'n cynnwys gofyniad am adroddiadau blynyddol ar y Gymraeg ac archwiliadau sgiliau er mwyn canfod lle mae siaradwyr Cymraeg yn brin ar draws y sefydliad.</li> <li>• Cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Oedolion arolwg i gasglu gwybodaeth llinell sylfaen am nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae data ar sgiliau Cymraeg y staff yn seiliedig ar hunanasesiad.</li> <li>• Nid yw'r data yn gyflawn, ond anogir Rheolwyr i drafod sgiliau Cymraeg yn rhan o'r broses arfarnu. Nifer y dechreuwyr newydd ac ail-lunio'r effaith ar y data a gesglir.</li> <li>• Nid yw'r staff yn adrodd eu sgiliau Cymraeg, neu maent yn tanadrodd lefel eu sgiliau Cymraeg.</li> <li>• Ceir diffyg hyder i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn y gweithle.</li> <li>• Yn ôl Cyfrifiad 2012, mae 12.9% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn siarad Cymraeg (sydd yn is na chyfartaledd Cymru).</li> <li>• Ceir anawsterau parhaus wrth recriwtio i rolau penodol, ee gweithwyr cymdeithasol, staff gofal.</li> <li>• Mae'r Awdurdod yn parhau i ail-lunio er mwyn datblygu strwythur addas i'r diben er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, ac i ymdopi â heriau ariannol. Mae hyn wedi cael effaith ar recriwtio.</li> </ul>

**2.2** Dylai gwasanaethau ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fod wedi sefydlu systemau i gofnodi sefyllfaoedd lle gwnaed 'Cynnig Gweithredol' drwy gofnodi anghenion / dewisiadau iaith yng nghofnodion yr unigolyn. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr gwasanaeth gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnwyd am ddewis iaith defnyddwyr gwasanaeth wrth atgyfeirio neu yn ystod y trafodaethau 'Beth sy'n Bwysig'.</li> <li>• Ar hyn o bryd, mae dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gofnodi ar RAISE a CHARMS, gan gynhyrchu adroddiadau misol.</li> <li>• Mae Wrecsam ar hyn o bryd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol (ALI) eraill a'r GIG i ddatblygu system electronig integredig newydd – System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).</li> <li>• Mae Set Ddata Graidd wedi cael ei gweithredu o fewn Gofal</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aildrefnu dyddiad er mwyn gweithredu system WCCIS. Hydref 2019 bellach.</li> </ul>

<p>Cymdeithasol i Oedolion. Bydd hyn yn galluogi casglu ac adrodd ar ddata pellach yn gysylltiedig â'r 'Cynnig Gweithredol', a'r modd y darperir gofal yn dilyn hynny.</p>	
--	--

**2.5** Dylai systemau data ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol alluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog er mwyn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft:

- dylid casglu a chofnodi sgiliau Cymraeg staff yn electronig (dylid diwygio Cofnod Staff Electronig GIG Cymru er mwyn sicrhau bod yn rhaid i'r holl staff nodi eu sgiliau Cymraeg)
- cofnodion cleientiaid a chleifion i gynnwys adrannau sy'n galluogi staff i gofnodi achosion o wneud 'Cynnig Gweithredol' a nodi dewis iaith yr unigolyn er gwybodaeth yn y dyfodol.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar hyn o bryd, mae Resourcelink (system AD/Cyflogres) yn cofnodi ac yn adrodd sgiliau Cymraeg y staff o ran Gwrando/Siarad, Darllen/Deall ac Ysgrifennu drwy ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Cymhwysedd yn Gymraeg.</li> <li>• Lanswyd hunanwasanaeth 'MyView' ym mis Gorffennaf 2018 sy'n galluogi'r holl weithwyr i weld a diweddarau eu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eu Sgiliau Cymraeg.</li> <li>• Anogir rheolwyr i drafod sgiliau Cymraeg staff mewn arfarniadau blynyddol ac interim.</li> <li>• O bryd i'w gilydd, gofynnir i weithwyr gwblhau holiaduron sy'n gofyn am wybodaeth i ddibenion monitro cydraddoldeb, sy'n cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg</li> <li>• Ar hyn o bryd, caiff dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth ei gofnodi ar RAISE a CHARMS.</li> <li>• Nid oes systemau data ar waith ar hyn o bryd i baru defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg â staff sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, bydd rheolwyr yn dyrannu achosion i staff ar sail sgiliau priodol.</li> <li>• Mae modiwl e-ddysgu Cymraeg yn orfodol ar draws y cyngor.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r data yn gyflawn. Mae gwaith yn parhau â rheolwyr i sicrhau bod data yn gyfredol a chyflawn.</li> </ul>

**2.6** Dylid cynnwys sgiliau Cymraeg y gweithlu a phroffil y gymuned Gymraeg yn yr adroddiad a gyhoeddir yn flynyddol gan adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn CTClau y GIG i ddangos anghenion Cymraeg.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gofynion o ran y Gymraeg wedi cael eu hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mewn cynlluniau busnes cysylltiedig ers cyflwyno'r Fframwaith 'Mwy na Geiriau' ym mis Ebrill 2012.</li> <li>Darperir hyfforddiant Cymraeg i'r Sector Gofal Cymdeithasol drwy Goleg Cambria.</li> </ul>	

### **Amcan 3**

#### **Cynllunio, Comisiynu a Chontractio Gwasanaethau, a Chynllunio'r Gweithlu**

**3.2** Adrannau GIG Cymru a gwasanaethau cymdeithasol i sefydlu proffil y gymuned Gymraeg (yn seiliedig ar yr Adroddiad Asesu Poblogaeth a luniwyd o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014), a defnyddio'r wybodaeth hon fel llinell sylfaen i gynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod modd bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg, ac asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd cyn hysbysebu.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddir gwybodaeth o'r cyfrifiad ar hyn o bryd i sefydlu ein proffil o'r gymuned Gymraeg (mae Wreccsam ar hyn o bryd yn adrodd bod 12.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg).</li> <li>Ymdrinnir â'r anghenion a nodir o'r Adroddiad Asesu Anghenion y Boblogaeth wrth ddatblygu Cynllun Ardal, ac wrth ddatblygu neu newid gwasanaethau yn y dyfodol.</li> <li>Mae proses wedi'i sefydlu i Reoli Swyddi Gwag Cyfredol, sydd yn sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o'r angen am sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen adolygu'r broses Rheoli Swyddi Gwag er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o'r angen am sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu.</li> <li>Anawsterau wrth recriwtio i rolau penodol, ee gweithwyr cymdeithasol, staff gofal.</li> </ul>

**3.3** Systemau cynllunio a chomisiynu GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, fel cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus, i ystyried proffil y gymuned Gymraeg (ar sail yr Adroddiad Asesu Poblogaeth a luniwyd o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014), a sicrhau bod hynny wedi'i adlewyrchu wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi llunio a chyhoeddi Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad. Mae'r ddogfen yn darparu gwybodaeth allweddol i sefydliadau sy'n darparu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Costau gwasanaethau cyfieithu i wasanaethau darparu</li> <li>Anawsterau wrth recriwtio i rolau penodol ee, staff gofal</li> <li>Mae capasiti'r gwasanaeth gofal</li> </ul>

<p>gwasanaethau a chymorth i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan gynnwys gofynion o ran y Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Strategaeth Gomisiynu'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cyfeirio at yr angen i wasanaethau gofal a chymorth sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg wedi'u hymgorffori wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.</li> <li>• Ymdrinnir ag anghenion siaradwyr Cymraeg a nodir yn yr Adroddiad Asesu Anghenion y Boblogaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Ardal, ac mewn unrhyw wasanaethau a ddatblygir neu a newidir mewn ymateb i'r cynllun hwnnw.</li> <li>• Bydd y Fframwaith Adrannol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i sicrhau y tynnir sylw at yr angen am ddarpariaeth Gymraeg ac yr ymdrinnir â hynny.</li> </ul>	<p>mewn ardaloedd gwledig yn arbennig yn golygu llai o ddewisiadau o ran darpariaeth / iaith gwasanaeth (hy, llai o gartrefi gofal yn yr ardaloedd hynny, anhawster yn recriwtio gweithwyr gofal cartref yn gyffredinol).</p>
---	---

**3.4** Dylid bodloni anghenion pobl o ran y Gymraeg wrth gomisiynu neu gcontractio gwasanaethau o'r sector annibynnol neu'r trydydd sector (ee, gofal preswyl neu nyrsio, eiriolaeth, gofal cartref, gwasanaethau y tu allan i oriau, a gwasanaethau meddyg teulu). Dylid cynnwys darpariaeth gwasanaeth Gymraeg mewn manylebau contract, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau ariannu grantiau.

Tystiolaeth / Cynnydd	Rhwystrau / Heriau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gofynion o ran y Gymraeg wedi'u cynnwys mewn contractau.</li> <li>• Gofynnir i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth am gydymffurfio â gofynion y Gymraeg bob blwyddyn o leiaf, gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg a chwestiynau am iaith yn rhan o ymweliadau monitro.</li> <li>• Mae Cyfrifiad Gofal Cymdeithasol y Sector Annibynnol yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff o fewn y sectorau preswyl a chartref annibynnol. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu a'i dychwelyd i Gofal Cymdeithasol Cymru bob blwyddyn.</li> <li>• Wrth hysbysebu cyfleoedd am grantiau bach, cynhyrchir yr holl wybodaeth a'r ohebiaeth yn ddwyieithog. Bwriedir diweddarau gwybodaeth cyhoeddusrwydd er mwyn annog ceisiadau gan grwpiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anawsterau wrth recriwtio i rolau penodol ee, staff gofal</li> <li>• Costau gwasanaethau cyfieithu i wasanaethau darparu ac aros gyfuwch â newidiadau i ddogfennau.</li> <li>• Anawsterau wrth recriwtio i rolau penodol ee, staff gofal</li> <li>• Mae capasiti'r gwasanaeth gofal mewn ardaloedd gwledig yn arbennig yn golygu llai o ddewisiadau mewn darpariaeth / iaith gwasanaeth (hy, llai o gartrefi gofal yn yr ardaloedd hynny, anhawster yn recriwtio gweithwyr gofal cartref yn gyffredinol).</li> </ul>

<p>sy'n dymuno cynnal eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae manylebau contract a threfniadau monitro wedi cael eu hadolygu, yn enwedig o ran hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn gwasanaethau a gomisiynir gennym ni.</li> </ul>	
--	--

**3.7** Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau i gynyddu hyd yr eithaf eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy ddefnyddio'r aelodau o staff sydd ganddynt eisoes. Bydd y capasiti angenrheidiol yn seiliedig ar Adroddiad Asesu'r Boblogaeth a luniwyd o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Lle nodir bylchau yng nghapasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, dylid adlewyrchu'r rheiny yn Strategaeth Sgiliau Cymraeg y sefydliad.

<b>Tystiolaeth / Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau / Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymraeg cyfredol, gofynnir i Reolwyr ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddefnyddio capasiti sy'n bodoli eisoes, hy drwy rannu adnoddau.</li> <li>• Cynigiwyd sesiynau ar 'Mwy na Geiriau - Strategaeth Ddilynol'. Sesiynau hanner diwrnod oedd y rhain a gynhaliwyd gan laith. Roeddent yn canolbwyntio ar y 'Cynnig Gweithredol' ac ar ddatblygu strategaeth Sgiliau Cymraeg. Cynigiwyd y sesiynau hyn i staff y Cyngor ac i'r Sector Annibynnol.</li> <li>• Lansiodd y Cyngor gwrs 10 awr ar-lein Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru. Nod y cwrs oedd galluogi staff i gwrdd â chydweithwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, a'u cyfarch drwy ddefnyddio brawddegau Cymraeg, ac ymateb i ymholiadau cychwynnol yn Gymraeg, a throsglwyddo galwadau i siaradwyr Cymraeg eraill.</li> <li>• Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cyfleoedd i'r staff ddysgu Cymraeg drwy Goleg Cambria. Cynigir amrywiaeth o gyrsiau, o Gyrsiau Dechreuwyr i Gyrsiau Uwch.</li> <li>• Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig sesiwn ymarfer anffurfiol drwy Goleg Cambria.</li> <li>• Cynhaliodd y Cyngor (ar y cyd ag laith) Gwrs Dwys Cymraeg Gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r staff yn adrodd eu sgiliau Cymraeg, neu maent yn tanadrodd lefel eu sgiliau Cymraeg.</li> <li>• Ceir diffyg hyder i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn y gweithle.</li> <li>• Costau hyfforddi.</li> </ul>

<p>dros gyfnod o 3 mis - roedd y cwrs wedi'i anelu at y rhai yr oedd angen iddynt wneud cynnydd cyflym tuag at ddysgu Cymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau.</li> <li>• Mae gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant restr o siaradwyr Cymraeg dynodedig ac o ddysgwyr Cymraeg y gellir gofyn iddynt gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.</li> <li>• Strategaeth Sgiliau Cymraeg Gorfforaethol wedi'i sefydlu. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys mentrau i gynyddu capasiti ar draws y sefydliad.</li> </ul>	
---	--

#### **Amcan 4**

#### **Hyrwyddo ac Ymgysylltu**

**4.3** Bydd y defnydd o'r logo 'Cymraeg Gwaith' yn cael ei hyrwyddo ymhlith staff iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn galluogi pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg.

<b>Tystiolaeth / Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau / Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddir cortyn i bob siaradwr Cymraeg i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg, ac anogir staff hefyd i annog pobl i ohebu yn Gymraeg (drwy'r llofnod e-bost).</li> <li>• Mae arwyddion wedi cael eu gosod yn y prif dderbynfeydd yn nodi y gall pobl gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.</li> </ul>	

**4.6** Bydd rhyngwynebau a meddalwedd Cymraeg (fel Cysgliad) ar gael i staff iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i'w galluogi a'u cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog. Dylid ystyried addasu systemau cyfredol er mwyn bodloni'r nod hwn.

<b>Tystiolaeth / Cynnydd</b>	<b>Rhwystrau / Heriau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan bob siaradwr Cymraeg (siaradwyr rhugl a dysgwyr) fynediad at feddalwedd gwirio gramadeg a sillafu.</li> <li>• Mae gan staff fynediad at ystod o wybodaeth ac offer ar SAM i'w cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog.</li> <li>• Dyma'r gofynion ar gyfer y WCCIS o</li> </ul>	Aildrefnu'r dyddiad ar gyfer gweithredu system WCCIS. Hydref 2019 bellach.

<p>ran y Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Mae'n rhaid i'r system gydymffurfio â deddfwriaeth</li><li>- Mae'n rhaid i'r system ganiatáu dewis iaith ar gyfer y rhyngwyneb defnyddiwr</li><li>- Mae'n rhaid i'r system allu cofnodi yn Saesneg neu'n Gymraeg</li><li>- Mae'n rhaid i'r system gynnal dogfennau wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg/Saesneg</li></ul>	
--	--





## **ATODIAD 3**

### **Monitro Sgiliau Cymraeg Gweithwyr**

#### ***Cyflwyniad***

Mae gennym dri chategori wrth gasglu data ar sgiliau Cymraeg yn rhan o'n gwaith monitro cydraddoldeb:

- 1) Gwranddo/Siarad
- 2) Darllen/Deall
- 3) Ysgrifennu

Ym mhob un o'r categorïau hyn gofynnir i weithwyr asesu/cofnodi lefel eu hyfedredd yn Gymraeg ar sail y meini prawf canlynol:

Lefel 0 - Ddim o gwbl/Mynediad

Lefel 1 - Ychydig/Sylfaenol

Lefel 2 - Canolradd/Rhywfaint

Lefel 3 - Uwch/Cymedrol

Lefel 4 - Hyfedredd Llwyf

Lefel 5 - Hyfedredd Llwyf (Technegol)

Darperir yr wybodaeth hon gan weithwyr yn y cam recriwtio, pan fydd gweithiwr yn diweddarau ei gofnod personol ei hun neu (mewn rhai adrannau) yn ystod adolygiad datblygiad personol y gweithiwr.

Mae'r data hyn yn seiliedig ar weithwyr cyngor (ac eithrio gweithwyr addysg mewn ysgolion) ar **31/03/2019**.

## Gweithwyr â Sgiliau Cymraeg fesul Adran

		<b>GWEITHWYR Â SGILIAU CYMRAEG MEWN 1 NEU FWY O GATEGORïAU</b>			
<b>Adran</b>	<b>Nifer y Gweithwyr</b>	<b>Lefel 1 +</b>	<b>%</b>	<b>Lefel 3 +</b>	<b>%</b>
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	472	46	9.75%	7	1.48%
Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Strategol	6	0	0.00%	9	0.00%
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid	190	54	28.42%	14	7.37%
Addysg	347	69	19.88%	16	4.61%
Yr Amgylchedd a Chynllunio	520	39	7.50%	3	0.58%
Cyllid	170	53	31.18%	9	5.29%
Tai a'r Economi	869	122	14.04%	25	2.88%
Gofal Cymdeithasol Plant	221	30	13.57%	5	2.26%
<b>Cyfanswm Terfynol</b>	<b>2,795</b>	<b>413</b>	<b>14.78%</b>	<b>79</b>	<b>2.83%</b>

Sylwer: Nid yw'r ffigurau'n cynnwys Ysgolion.

## Gweithwyr â Sgiliau Cymraeg fesul Gradd

<b>GWEITHWYR Â SGILIAU CYMRAEG MEWN 1 NEU FWY O GATEGORïAU</b>					
<b>Gradd</b>	<b>Nifer y Gweithwyr</b>	<b>Lefel 1 +</b>	<b>%</b>	<b>Lefel 3 +</b>	<b>%</b>
L02 - L06	1,503	169	11.24%	28	1.86%
L07 - L10	876	177	20.21%	31	3.54%
L11 - L15	154	37	24.03%	14	9.74%
Athrawon Soulbury, Ieuenctid ac Athrawon a gyflogir yn ganolog	131	26	19.85%	4	3.05%
Gweithwyr Crefft	123	1	0.81%	0	0.00%
Prif Swyddogion / Cyfarwyddwyr	8	3	37.05%	1	12.50%
<b>Cyfanswm Terfynol</b>	<b>2,795</b>	<b>413</b>	<b>14.78%</b>	<b>79</b>	<b>2.83%</b>

Sylwer nad yw hyn yn cynnwys gweithwyr addysg mewn ysgolion, a bod Penaethiaid Adran wedi'u cynnwys yng ngradd y Prif Weithredwr.